

NEWYDDLEN

Y NEWYDDION DIWEDDARAF I HOLL STAFF Y BRIFYSGOL MEHEFIN 2010



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

CYFLWYNO CYNLLUN 'PONTIO'



Bydd Canolfan newydd y Celfyddydau ac Arloesi, adeilad gyda walio allanol wedi eu gwneud yn bennaf o garreg a gwydr, yn agor yn 2012

Mae cynllun Canolfan y Celfyddydau ac Arloesi newydd gwerth dros £35 miliwn ym Mhrifysgol Bangor newydd ei gyhoeddi.

Bydd y fenter gyffrous hon yn codi canolfan i arloesi ym maes gwyddoniaeth, technoleg a'r diwydiannau creadigol fydd gyda'r gorau yn y byd, a bydd hefyd yn creu canolfan ar gyfer addysgu a'r celfyddydau perfformio fydd yn arwyddocaol yn rhyngwladol. Bydd yr adeilad newydd yn gyfleuster gwyb i staff, myfyrwyr a chymuned Bangor a bydd yn dod â'r celfyddydau a gwyddoniaeth ynghyd mewn ffyrdd newydd ac yn meithrin cysylltiadau agosach rhwng y Brifysgol a'r ddinas.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi £15 miliwn tuag at y project a chaiff y project effaith gadarnhaol iawn ar y gymuned, gan greu a diogelu oddeutu 900 o swyddi. Cynllunir yr adeilad gan bartneriaeth o gwmnïau arobryn, yn cynnwys Atkins, Arup, a'r penseiri Grimshaw. Mae Grimshaw wedi cynllunio llawer o adeiladau eiconig megis yr Eden Project yng Nghernyw a'r Experimental Media and Performing Arts Center (EMPAC) yn nhalaith Efrog Newydd.

Yn briodol iawn, gelwir y project newydd yn Pontio a bydd yn cynnwys canolbwynt arloesi deinamig, cyfleusterau addysgu a dysgu o'r



radd flaenaf a gofodau perfformio dan do ac yn yr awyr agored, yn cynnwys theatr, yn ogystal â chartref newydd i Undeb Myfyrwyr y Brifysgol.

Bydd gan y Ganolfan fannau addysgu a manau dysgu cymdeithasol i ddarparu amgylchedd dysgu modern o ansawdd uchel i'r myfyrwyr i gyd. Yn ogystal â'r theatr ei hun, bydd 4 darlithfa arall. Ochr yn ochr â'r manau addysgu ac arloesi, bydd gan y Ganolfan gyfleusterau arddangos digidol heb eu hail er mwyn arddangos gwaith gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.

Bydd y canolbwynt arloesi yn cynnal cyfuniad o ddulliau cynllunio amlddisgyblaethol yn y Brifysgol a busnesau lleol. Bydd yn dwyn ynghyd staff a myfyrwyr o wahanol adrannau i baratoi pobl ifanc ar gyfer gyrfaoedd o'r radd flaenaf ym meysydd gwyddoniaeth a pheirianeg. Bydd yn ganolbwynt i sgiliau o ansawdd uchel ac yn creu technolegau newydd i fusnesau mewn meysydd mor amrywiol â thechnolegau digidol, nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, biowyddoniaeth, meddalwedd blaengar a delweddu ymysg eraill.

Bydd yn cryfhau cysylltiadau academiaidd yn y gymuned fusnes ac yn blatfform i waith amlddisgyblaethol ar draws ffiniau academiaidd a chymunedol. Bydd hefyd yn hyrwyddo a helpu i ddatblygu ymchwil heb ei hail ar faterion economaidd-gymdeithasol pwysicaf ein dydd, yn enwedig ym meysydd iechyd a diogelu'r amgylchedd.

Caiff manau perfformio cyhoeddus y project eu cynllunio i fod yn llwyfannau arloesol fydd yn ysbrydoli artiad i arddangos digwyddiadau dynamig. Mae'r cynlluniau'n cynnwys theatr 500 sedd, sinema, theatr stiwdio ac amffitheatr awyr agored, yn ogystal â chyfleusterau cymdeithasu newydd cyffrous yn cynnwys bariau, manau bwyta a pharciau.

Cewch ragor o ddelweddau a manylion am y project yn www.pontio.co.uk a cheir hefyd arddangosiad yng nghanol Bangor yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn i staff a myfyrwyr a thrawstoriad eang o'r gymuned leol gael gwybod mwy am y project.

Bydd yr adeilad yn pontio campws uchaf y Brifysgol a'r safle gwyddoniaeth, a chaiff Parc y Coleg ei ailwampio'n sylweddol fel rhan o'r project. Bydd hefyd yn pontio mewn ffyrdd eraill: rhwng y gymuned a'r Brifysgol, rhwng y Brifysgol a masnach a rhwng disgyblaethau gwahanol.

TU MEWN CANOLBWYNTIO AR: Y GWASANAETH CEFNOGI MYFYRWYR, BRAF CYFARFOD LAURA EDWARDS, DATBLYGIADAU NEWYDD, GWOBROWYO A CHYDNABOD STAFF A MWY.



Dyweddodd y Dirprwy Is-Ganghellor, yr Athro Fergus Lowe, sy'n arwain y project: "Mae'r project yn uchelgeisiol ac eiconig, a chredwn y bydd yn cael effaith fawr ar staff, myfyrwyr a phawb fydd yn rhan ohono. Bydd yn hybu sgiliau newydd, yn meithrin ffyrdd newydd a chynaliadwy o feddwl ac yn cyfoethogi bywyd diwylliannol pob un ohonom. Cymaint fydd rhagoriaeth artistig ac arloesi'r Ganolfan, mae'n siŵr o ddenu pobl o bell ac agos. Mae'n broject cyffrous dros ben i bawb yn y Brifysgol a bydd yn rhoi Bangor ar y map."

Y Cyntedd Canolog.

Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar y campws, bydd Undeb y Myfyrwyr yn symud dros dro i Adeilad Robinson pan fydd y gwaith adeiladu'n dechrau yn yr hydref yn amodol ar ganiatâd perthnasol gan Gyngor Gwynedd. Mae Adeilad Robinson mewn lleoliad canolog dros y ffordd i lyfrgell Deiniol, a bydd yn cynnwys swyddfeydd i wasanaethau ac adnoddau Undeb y Myfyrwyr, siop, caffi a chlwb nos newydd sbon.



Golygfa o'r stiwdio Dylunio

Disgwylir y bydd y project Pontio wedi ei gwblhau yn 2012.

Ychwanegodd yr Athro Lowe:

"Mae hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i Brifysgol Bangor. Bydd Pontio yn symbol grymus o arloesi a chydweithio i'r gymuned gyfan."

Yr adeilad o'r Teras.



ASGWRN CEFN AGWEDD OFALGAR BANGOR

Mae staff yn y Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr yn ymdrin â rhwng saith ac wyth mil o gysylltiadau gan fyfyrwyr bob blwyddyn. Mae hyn yn gynydd sy'n adlewyrchu tueddiadau cyffredinol cymryd rhan mewn addysg uwch – yn arbennig o ran ehangu cyfranogiad, nifer cynyddol o fyfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr gydag anableddau. Nod y Gwasanaethau yw cyflawni sialensiau cefnogi myfyrwyr drwy eu hamser yn y Brifysgol a'u helpu i aros ar y cwrs, beth bynnag bo'r problemau, drwy ffyrdd arloesol o gyflwyno gwasanaethau a thrwy ychydig o welliannau bychain, ond arwyddocaol, i'r gwasanaeth.

Cefnogaeth rhyngwladol

Daeth hanner cant a phump o fyfyrwyr rhyngwladol i Ddathliad Dydd Gŵyl Dewi y Cynulliad Cenedlaethol yn Llandudno fis Mawrth, ynghyd â staff. Roedd hwn yn un o'r teithiau a'r digwyddiadau poblogaidd hynny a drefnir ar gyfer cymuned myfyrwyr rhyngwladol Bangor sy'n tyfu fwyfwy bob blwyddyn.

Mae'r Uned ELCOS, sy'n rhoi cyrsiau iaith Saesneg i fyfyrwyr, wedi'i chynnwys yn y Gwasanaethau Myfyrwyr. Oherwydd hynny, a galwadau Gwasanaeth Mewnffudo newydd y Swyddfa Gartref, sydd wedi'i seilio ar bwytia, gyda'i ofynion fisa uwch, mae swydd newydd yn cael ei chreu yn y Gwasanaeth Lles Myfyrwyr Rhyngwladol a fydd yn ei alluogi i roi gwasanaeth hyd yn oed gwell.

Cynllun newydd a gyflwynwyd y llynedd oedd y Cynllun Llysgennad Myfyrwyr Rhyngwladol, sydd wedi bod yn llwyddiant mawr. Mae yna wyth o lysgenhadon myfyrwyr rhyngwladol ar hyn o bryd, sef myfyrwyr ôl-radd yn bennaf, o amrywiaeth eang o wledydd, a'u swyddogaeth yw cynorthwyo myfyrwyr yn ystod cynefino, cynorthwyo mewn digwyddiadau a mynd gyda staff Swyddfa Ryngwladol y Brifysgol ar deithiau recriwtio i'w gwledydd brodorol.

Cefnogi anableddau

Mae nifer y myfyrwyr gydag anableddau sydd wedi dod i'r Brifysgol wedi treblu yn y bum mlynedd ddiwethaf. Mae cefnogaeth ragorol Bangor, yn cynnwys mentoriaid unigol hyfforddedig, wedi cael ei gydnabod, gyda'r Gymdeithas Awtistig Genedlaethol yn nodi Bangor a Chaerdydd fel y ddwy



O'r chwith i'r dde: Jan Roberts, Tracey Morris ac Amy Jones – i gyd yn staff yn y Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr.

Brifysgol yng Nghymru sy'n rhoi cefnogaeth deilwng i fyfyrwyr gydag anhwylderau sbectrwem awtistaidd.

Cwmsela

Mae Gwasanaeth Cwmsela'r Brifysgol hefyd wedi gallu cynyddu faint o gwmsela sydd ar gael, mewn sesiynau un-i-un a sesiynau grŵp. Mae'r cwmsleriaid hyfforddedig wedi bod yn darparu cyfleoedd datblygu staff hefyd fel rhan o Strategaeth Dal Gafael y Brifysgol; darparu sesiynau i diwtoriaid personol a thiwtorïaid uwch i'w galluogi i wella'u sgiliau wrth gefnogi myfyrwyr. Mae sesiynau cefnogi misol i Diwtoriaid Uwch wedi cael eu cyflwyno eleni.

Dal Gafael ar Fyfyrwyr

Mae Bangor yn eithaf arbennig yn yr ystyr bod ganddi gynghorwr a all gynorthwyo myfyrwyr â pharhau i astudio yn wyneb

O'r chwith i'r dde: Aelod o'r Pwyllgor Gweithredu Iechyd a Diogelwch; Mair Owen – Canolfan Gyngori, Undeb y Myfyrwyr; ac Amy Jones – Swyddfa Tai, Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr, yn cynghori myfyriwr yn ystod digwyddiad diweddar.

anawsterau personol neu academaidd. Gall y cynghorwr eu cyfeirio at amrywiaeth eang o ddewisiadau, yn cynnwys gohirio astudiaethau dros dro, newid cwrs etc i'w galluogi i barhau i astudio ym Mangor a chael gradd. Gall y Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr hefyd roi gwybodaeth i staff a rhieni am bob elfen o ddarpariaeth lles myfyrwyr a'r dulliau gweithredu yn hynny o beth yn y Brifysgol.

Cyngor Ariannol

Fe wnaeth anrhefn yn Student Finance England ddechrau'r flwyddyn arwain at filoedd o fyfyrwyr drwy Brydain yn cael oedi cyn derbyn eu benthyciadau myfyrwyr. Ym Mangor, gwelodd staff yr Uned Cefnogaeth Ariannol 500 o fyfyrwyr yn y semester cyntaf, gyda llawer o'r rhain yn derbyn cymorth cyllidol i'w galluogi i aros ym Mangor yn ystod yr amser anodd hwn.

Meddai Pennaeth y Gwasanaethau Cefnogi Myfyrwyr, Fran Tate: "Rydyn ni wedi bod drwy amser heriol, ac wedi bod dan bwysau cynyddol i roi mwy o wasanaethau i fyfyrwyr, ond mae'n bleser gennyf ddweud fy mod yn credu ein bod ni'n cyflawni'r sialensiau gyda brwdfrydedd."

CLWB BUSNES PRIFYSGOL BANGOR

Lansiwyd Clwb Busnes Prifysgol Bangor (y Clwb) yn Nhachwedd 2008 ac mae bron i 600 o aelodau, y rhan fwyaf ohonynt yn unigolion o'r sector breifat, chwarter yn aelodau o staff y Brifysgol a'r gweddill yn gweithio yn y sector cyhoeddus.

Mae'r Clwb wedi'i leoli a'i drefnu gan y Ganolfan Rheolaeth, ac mae wedi cynnal dros 60 o ddigwyddiadau busnes, seminarau a chyfleoedd rhwydweithio yn ystod 2009 ac mae'n cael cefnogaeth dda. Mae'r holl wybodaeth am y digwyddiadau hyn yn cael ei dosbarthu gan dîm digwyddiadau a gweinyddu'r Clwb. Cewch hyd i'r rhestr o'r digwyddiadau yn: www.themanagementcentre.co.uk/businessclubevents2010.php

Mae'r Clwb Busnes hefyd yn gartref i nifer o grwpiau diddordeb arbennig lle mae aelodau'n cael cyfle i hybu eu diddordebau busnes a phersonol wrth gyfarfod ag aelodau eraill.

Dosberthir taflen newyddion dymhorol ddwyieithog 'Beitiau Busnes' i bob aelod, ac mae hefyd ar gael ar ffurf brintiedig o'r Dderbynfa yn y Ganolfan Rheolaeth. Os hoffech ragor o wybodaeth am y Clwb Busnes, neu gofrestru i fod yn aelod, e-bostiwch info@themanagementcentre.co.uk

Drwy ddod yn aelod o'r Clwb, gellwch hefyd ddefnyddio'r Ystafell Fusnes, Bar y Lolfa Fusnes a'r Brasserie yn y Ganolfan Rheolaeth, yn ogystal â chynnyg y prisiau gorau ar gyfer gwely a brecwast yn y gwesty dosbarth busnes 4*.

CYDRADDOLDEB ANABLEDD - DWEUD EICH DWEUD

Cynhyrchodd y Brifysgol ei Chynllun Cydraddoldeb Anabledd dair blynedd yn ôl ac mae hi'n awr yn amser adolygu cynnydd a chynhyrchu ail Gynllun Cydraddoldeb Anabledd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, adolygodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ein Cynllun ac roedd yn gadarnhaol iawn ac yn llawn canmoliaeth yn eu sylwadau. Mae'r Adran Adnoddau Dynol am adeiladu ar y llwyddiant yma, a byddent yn hoffi annog unrhyw un sy'n anabl mewn unrhyw ffordd i gymryd rhan mewn datblygu'r Cynllun newydd. Felly os oes gennych chi unrhyw sylwadau, neu os ydych yn dymuno cymryd rhan, cysylltwch â: Mrs Jackie Ellis, est. 8321 neu Mrs Carolyn Donaldson-Hughes, est. 2570 neu e-bostiwch eandd@bangor.ac.uk

GWOBROWYO STAFF



Dyma (cefn, chwith -dde): Mr Kevin Williams, Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer; Dr Andy Beaumont, Ysgol Gwyddorau Eigion; Mr Gwynn Lloyd Jones, Canolfan BioGyfansoddion; Dr David Roberts, Cofrestrwydd; Mr Andre Lomozik, Mr Brian Price, y ddau o Gwasanaethau TG. Rhos flaen: Mr Gareth Williams, Mrs Carys Bowers, y ddau o Ysgol Gwyddorau Biolegol; Mrs Lyn Meadows, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol; Mrs Gwyneth Williams, Ysgol y Gymraeg.

Cyflwynwyd dwy Wobr Ragoriaeth i staff cefnogi'r Brifysgol a enwebwyd gan eu cydweithwyr am eu cyfraniad neilltuol yn ddiweddar.

Wrth gyflwyno sicw werth £1,000 yn un i Adrienne Hebenstreit, gweinyddwr cwrwclwm yn Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, a Kevin Williams, technegydd yn yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer, dywedodd Dr David Roberts:

"Mae yna enghreifftiau o wasanaeth neilltuol, ac o ffyddlondeb diysgog ac ymrwymiad i'r Brifysgol ymysg staff cefnogi, ac mae'n briodol bod y Brifysgol yn cydnabod hyn. Roedd y rhai a dderbyniodd Wobr Rhagoriaeth 2010 yn haeddiannol iawn."

Am y tro cyntaf, mae'r Brifysgol eleni wedi cyflwyno gwobr i nodi gwasanaeth hir.

Gwobrowwyd deg aelod o staff sydd rhyngddynt wedi rhoi 435 o flynyddoedd o wasanaeth i'r Brifysgol mewn Seremoni Gwasanaeth Hir a gynhaliwyd ar yr un noson. Derbyniodd pawb sydd wedi gweithio yn y Brifysgol am dros 40 o flynyddoedd tocyn rhodd o'u dewis. Diolchwyd yn bersonol i bob un ohonynt am eu cyfraniad neilltuol dros y blynyddoedd.

"Profodd y noson yn llwyddiant mawr ac rydym yn gobeithio cynnal noson debyg yn flynyddol i ddiolch i staff am eu gwasanaeth hir," meddai



Ms Adrienne Hebenstreit yn derbyn ei sicw gan Dr David Roberts.

Lyn Meadows, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol.

Ddim yn bresennol ar y noson ond yn derbyn Gwobr oedd: John Cambridge, Richard Gwyn Williams, y ddau o Ysgol Peirianeg Electroneg ac Aled Williams, Gwasanaethau TG.

Gyda thristwch, rhaid nodi bod Mr Aled Williams wedi marw ers y seremoni gwobrowyo.

CAERSAINT

Mae Dr Angharad Price, sy'n Uwch Ddarlithydd yn Ysgol y Gymraeg, wedi gweld ei thrydedd nofel yn cael ei chyhoeddi yn ddiweddar.

Ysgrifennwyd Caersaint wedi i Angharad ennill ysgoloriaeth gan yr Academi Gymreig. Gwelodd ei nofel gyntaf, *Tania'r Tacs*, olau dydd yn 1999, ac fe'i dilynwyd gan *O! Tyn y Gorchudd*, nofel fer a enillodd Fedal Ryddiaith Eisteddfod Genedlaethol 2002 a chyfrol a enwyd yn Llyfr y Flwyddyn gan Gyngor y Celfyddydau yn 2003.

Dyweddodd Angharad: "Nofel drefol ydi Caersaint sydd wedi cael ei hysbrydoli gan dref Caernarfon heddiw. Mae'n dilyn ymdrechion Jaman Jones i'w 'ffeindio ei hun' wedi iddo etifeddu tŷ'r hen, wraig Arfonia Bugbird. Dwi'n gobethio bod yma stori hwyliog sy'n darlunio bywyd mewn un dref Gymraeg ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain."

Bu Angharad yn gweithio ar y nofel am dros dair blynedd. Dywedodd: "Dydi prysurdeb gweithio yn y brifysgol ddim bob amser yn gymorth wrth sgwennu (boed hynny yn greadigol



Dr Angharad Price.

neu fel arall), ond mi ddysgais fanteisio i'r eithaf ar bob munud sbâr! Yn sicr, mae'r cyfle mae rhywun yn ei gael i hel syniadau, a thrafod llyfrau awduron eraill, heb sôn am yr ysbrydoliaeth sy'n dod o ddysgu myfyrwyr, yn cyfoethogi profiad rhywun fel awdur.

"Ond dwi wedi bod yn meddwl sgwennu am Gaernarfon ers blynyddoedd lawer, ac mae 'na sawl nofel ar ei hanner gennyf mewn droriau yn fy nesg! Dydi hi ddim yn hawdd sgwennu nofel am Gaernarfon gan fod yna'r fath gyfoeth o hanes a chwedloniaeth, ac weithiau roedd yn anodd troedio'r ffin denau rhwng nodweddion unigryw y dref a'r ystrydebau sy'n bodoli amdani. Dwi'n ei theimlo'n fraint cael byw mewn tref mor ddifyr ac roeddwn i eisiau cyfleu'r gwerthfawrogiad hwnnw."

Meddai: "Ar hyn o bryd dwi'n cwblhau cyfrol ar fywyd a gwaith T.H. Parry-Williams pan oedd yn fyfyrwr ifanc yn Yr Almaen ac ym Mharis cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n bwnc diddorol ofnadwy, ac mae Parry-Williams yn ysgrifennwr y mae gen i barch mawr iddo. Mae'n siŵr y sgwennaf nofel arall rhywbryd, ond does dim cynllun pendant ar y funud. Cawn weld sut y bydd Caersaint yn plesio!"

Mae'r nofel ar gael mewn unrhyw siop lyfrau Gymraeg, gan gynnwys dwy siop lyfrau Palas Print ym Mangor a Chaernarfon.

ATHRO YN YMUNO Â CHYNGOR Y CELFYDDYDAU

Mae'r Athro Gerwyn Wiliams o Ysgol y Gymraeg yn un o chwe aelod newydd o Gyngor Celfyddydau Cymru, a benodwyd gan Alun Ffred Jones, y Gweinidog dros Dreftadaeth.

Bydd yr Athro Wiliams yn gwasanaethu fel aelod o'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau ar 1 Ebrill 2010. Dywedodd: "Rwy'n credu'n gryf yn y celfyddydau a'r potensial sydd ganddynt i gyfoethogi bywyd unigolion a chymdeithas yn gyffredinol. Mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru ran allweddol i'w chwarae ym mywyd y genedl ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y cyfle i gyfrannu'n greadigol i'w weithgareddau."

Bu'r Athro Gerwyn Wiliams yn Is-Gyfarwyddwr yr Ysgol Astudiaethau Trwy'r Gymraeg, yn Ddeon Cyfadran y Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithas, yn Bennaeth Ysgol y Gymraeg ac yn Ddirprwy Bennaeth Ysgol y Dyniaethau a'r Celfyddydau. Fe'i dyrchafwyd i Gadair Bersonol yn Nhachwedd 2005.

Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys llenyddiaeth Gymraeg sy'n ymwneud â' Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd a Rhyfel y Falklands. Enillodd Goron yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1994 a chystadleuaeth Llyfr



Yr Athro Gerwyn Wiliams.

y Flwyddyn ym 1997. Mae wedi beirniadu cystadlaethau llenyddol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn Eisteddfod yr Urdd ar sawl achlysur. Mae'n golygu nifer o gyfresi llenyddol ac mae'n un o gyn-olygyddion y cyfnodolyn 'Taliesin'. Nid yw'n dal unrhyw swyddi gweinidogol cyhoeddus eraill.

Hefyd yn aelodau newydd o Gyngor Celfyddydau Cymru bydd John Geraint, Osi Rhys Osmond, Richard Turner, Alan Watkin a John Carey Williams.

Meddai Alun Ffred Jones: "Dw i'n hynod falch o gael penodi chwe aelod newydd o Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae ganddyn nhw brofiad helaeth a gwerthfawr, a chefnidroedd gwahanol ym maes y celfyddydau, a dwi'n siŵr y bydd ganddyn nhw gyfraniad mawr i'w wneud i waith Cyngor Celfyddydau Cymru yn ystod y tair blynedd y byddan nhw'n aelodau ohono."

Meddai Dai Smith, Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru: "Creodd ceisiadau'r chwe aelod newydd yr ydym yn eu croesawi gryn argraff oherwydd yr arbenigedd a'r brwdfrydedd angerddol a oedd mor amlwg ynddynt. Bydd y rhinweddau hynny'n gwbl hanfodol i ni eleni wrth i'r Adolygiad o Fuddsoddiad Strategol fynd rhagddo. Mae'r Cyngor ar ei newydd wedd yn un sydd â chyfuniad gwych o bersonoliaethau a phrofiad, a dwi'n ymfalchio'n fawr yn y ffaith mai fi, yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd, fydd yn cael y fraint o'i arwain yn ystod y tair blynedd tyngedfennol nesaf."

TORRI'R GARREG

Mae sgôr brintiedig darn newydd o gerddoriaeth a gomisiynwyd gan y Brifysgol fel rhan o'r dathliadau can mlwyddiant a chwarter wedi'i chyflwyno i'r Brifysgol.

Guto Puw, o Ysgol Ceddoriaeth y Brifysgol, a chyfansoddwr preswyl Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, a gomisiynwyd i gyfansoddi Agorawd 'Torri'r Garreg' a berfformiwyd am y tro cyntaf yn ystod cyngerdd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn Neuadd Prichard-Jones fis Tachwedd.

Meddai Guto am y gwaith:

"Wedi i mi ystyried yr hanes tu ôl i sefydlu'r Brifysgol, mae'r darn yma'n deyrnged i ddyheadau, gobeithion a gweledigaeth trigolion lleol o ran dod ag addysg uwch i ogledd Cymru. Roedd llawer ohonynt yn chwarelwyr a ffermwyr lleol yn cyfrannu swm misol o'u cyflog dros nifer o flynyddoedd tuag at gost y cyfryw sefydliad. Felly, mae'r gwaith hwn yn deyrnged i'r daliadau hynny, y mae Prifysgol Bangor yn eu cynnal hyd heddiw."

Daw'r teitl 'Torri'r Garreg' o gân werin sy'n cyfeirio at sgiliau'r chwarelwyr llechi lleol yng ngogledd Cymru. Yr hyn a'm denodd oedd ystyr lythrennol y geiriau, yn enwedig sut roedd y chwarelwyr, gyda'u dehurwydd arbenigol a'u gwybodaeth ddaearegol graff, yn medru torri'r garreg o ochr y mynydd, newid ei siâp, ei hail-weithio ac, yn llythrennol, ei thrawsffurfio'n wrthrych arall, gyda'r cynnyrch mwyaf cyffredin, wrth reswm, yn llechen doi.

Yn yr un modd, mae'r alaw rythmig agoriadol yn y darn hwn yn cael ei hail weithio, ei thrawsffurfio a'i datblygu'n gyson lle mae'r syniadau gwreiddiol yn magu nodweddion newydd eu hunain, megis yr ymdeithgan a awgrymir gan y pres, unawd bell gan y trymped i gyfeiliant graddfeydd disgynol y chwythbrennau, neu'r adran ganol digyffro sy'n cyfleu'r naw. Yn gynnil, awgrymir synau o'r chwarel gyda'r defnydd o offerynnau taro lled anarferol, megis cŷn a morthwyl cerrig, llechen doi a chlychau cregyn."

Yn gyson drwy gydol y darn, chwaraeir rhythm hanner-cwafer ynghyd â'r cyfnewid syniadau dramatig rhwng gwahanol adrannau'r gerddorfa, a'r cyfan o fewn y rhif symbolaidd o 125 bar!

YMWELIAD BRENHINOL Â'R GANOLFAN RHEOLAETH



Bu'r Frenhines Elizabeth a'r Tywysog Philip yn ymweld â Phrifysgol Bangor yn ystod eu taith ddiweddar i ogledd a chanolbarth Cymru. Roedd y daith yn cynnwys ymweliad â Chanolfan Rheolaeth y Brifysgol, lle buont yn edrych ar y cyfleusterau newydd sydd wedi'u datblygu yno. Cafodd y parti Brenhinol hefyd gyfle i gwrrd â staff, yn ogystal â gwahoddedigion amlwg, dros cinio.

Meddai Prif Weithredwr y Ganolfan Rheolaeth, yr Athro Colyn Gardner: "Mae'n wych bod y Frenhines wedi dewis ymweld â'r Brifysgol a'r Ganolfan Rheolaeth."

Yma, mae'r Is-Ganghellor, yr Athro Merfyn Jones, yn cael ei gyflwyno i'r Frenhines gan Arglwydd Raglaw Gwynedd.

CYDNABOD CYFRANIAD



Wedi'u ffotograffu yn y Gynhadledd y mae Heidi Heard (chwith) a Dr Michaela Swales (dde) yn derbyn y wobwr gan Yr Athro Linehan.

Derbyniodd y Darlithydd Seicoleg, Dr Michaela Swales, y 'Cindy Sanderson Outstanding Educator Award' yn yr International Society for the Improvement and Training of DBT (Therapi Ymddygiad Dilechdidol) yn Efrog Newydd fis Tachwedd. Derbyniodd Dr Swales y wobwr, ynghyd â Heidi Heard, am eu gwaith yn datblygu'r rhaglen hyfforddiant Prydeinig ac am eu llyfr yr oeddent ill dwy'n gyd-awduron, 'Distinctive Features of Dialectical Behaviour Therapy' a gyhoeddwyd gan Routledge yn niwedd 2008.

Mae DBT yn ymyriad seicolegol ar gyfer trin ymddygiad hunan-laddol mewn pobl gydag

Anhwylder Personoliaeth Ffiniol, a argymhellir gan ganllawiau NICE Prydain ar gyfer merched â'r problemau hyn. Datblygwyd y driniaeth gan Yr Athro Marsha Linehan o Brifysgol Washington yn Seattle, sydd wedi cynnal nifer o hap-arbroffion rheoledig yn dangos effeithiolrwydd y driniaeth.

Roedd Dr Swales yn aelod o'r tîm cyntaf o weithwyr proffesiynol ym Mhrydain i hyfforddi yn y driniaeth yn 1994, ac yn aelod cyntaf Tîm Hyfforddi DBT Ynysoedd Prydain. Mae hi wedi cyfarwyddo'r Tîm Hyfforddi cenedlaethol er 2002. Ers 1997, maent wedi hyfforddi dros 1,000 o weithwyr proffesiynol iechyd meddwl ar draws Prydain.

IECHYD A DIOGELWCH YN ENNILL GWOBRAU

Gall Prifysgol Bangor ddod a'i blwyddyn o ddatlu canmlwyddiant a chwarter i ben gan wybod bod y gwaith o hybu iechyd a lles staff wedi cael ei farnu i fod y gorau un ym Mhrydain.

Enillodd Prifysgol Bangor wobwr 'Health Promotion and Well-being' Occupational Health, ac, yn fwy arwyddocaol, fe'i cyhoeddwyd yn "Enillydd Cyffredinol" yn y seremoni wobrwyo, a gynhaliwyd gan Occupational Health, y cylchgrawn sy'n adlewyrchu'r corff proffesiynol ym Mhrydain.

Dyma ddyfynnu Dr Charlie Vivian, Cyfarwyddwr Ansawdd NHS Plus a Beirniad Categori: "Bangor's quality of presentation far exceeded the other entries. The argument developed logically, identifying World Health Organisations justification for health, and explaining why it should be promoted at work. Excellent leadership was demonstrated. Health assessments were conducted, resulting in assessments of smoking, alcohol, diet, exercise and back pain and mindfulness..."

Yn ôl Gareth Wynne Jones, Pennaeth y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, mae'r wobwr yn amlygu safon uchel hybu iechyd ym Mhrifysgol Bangor

yn ogystal ag arweinyddiaeth yr ymarferwr iechyd galwedigaethol, Joe Patton, a'i waith yn hwrwyddo iechyd yn y gwaith.

Beirniadwyd cyflwyniad Bangor yn erbyn pob math o gyflogwyr, yn cynnwys sefydliadau rhyngwladol a rhai gwerth miliynau o bunnoedd fel Nestle, E-on, The DWP, BT, Heddlu'r Metropolitan, Lotus Cars, Premier Foods a NHS Direct.

Iechyd a Diogelwch

Yn dilyn y Wobr, cafwyd y newydd bod y Grŵp Iechyd a Diogelwch lleol (a drefnwyd gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch am nifer o flynyddoedd a chan y Brifysgol am dros ugain mlynedd) wedi derbyn "rhaglen gyffredinol orau 2009" ac wedi derbyn "highly commended" am y gynhadledd flynyddol (a gynhaliwyd yn Neuadd PJ yn yr hydref). Mae'r gwobrwyon, yr "Alan Butler Awards", yn cael eu cyflwyno'n flynyddol gan Safety Groups UK – cymdeithas genedlaethol a gefnogir gan RoSPA, HSE ac eraill.

Yn ddiweddar, fe wnaeth Lisa Fowlie, Cynghorwr Iechyd a Diogelwch, gymryd yr awenau gyda threfnu siaradwyr y Grŵp a'r amserlen. Mae ei chyfoeth o brofiad gyda chynadledau a'i chysylltiadau fel cyn Gadeirydd Prydain yr *Institution of*



Yn y llun o'r chwith i'r dde: Noel Reilly, golygydd 'Occupational Health', Gareth Jones (pennaeth iechyd a diogelwch, Prifysgol Bangor), Dr Mark Simpson (Cyfarwyddwr clinigol AXA – noddwr y digwyddiad) Joe Patton (ymarferwr iechyd, Prifysgol Bangor) a Dominic Holland (comediwr a'r cyflwynydd ar gyfer y digwyddiad).

Occupational Safety & Health wedi rhoi cyfoeth o wybodaeth werthfawr ym meysydd iechyd, diogelwch a lles i staff y Brifysgol a chyflogwyr lleol.

Mae aelodau Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd Orllewin Cymru yn cynnwys cynrychiolaeth

dda o gyflogwyr sector cyhoeddus a phreifat o bob rhan o ogledd Cymru. Mae'r cyfnewid gwybodaeth a ddarperir drwy'r Grŵp yn cael ei ystyried yn elfen bwysig o waith HSS, ac yn gyfle gwych i ymwneud â chyflogwyr eraill yn yr ardal, a'u cefnogi.

Newyddion Brys Hoffai tîm Gwasanaethau Busnes Adran Ystadau a Chyfleusterau ddiolch i bawb a gymerodd ran yn eu hachlysur codi arian at *Sport Relief*, a gynhaliwyd yn ddiweddar. Gyda chymorth pawb, fe lwyddo'n nhw i seiclo pellter cyfesur â hanner ffordd i Gaerdydd a chodi bron i £100 - roedd hynny, yn ôl £1 y filltir, yn ymdrech ragorol. Unwaith eto diolch yn fawr iawn a da iawn chi!

DDYFEISWYR – MAE AR Y BRIFYSGOL EICH ANGEN!

Yn galw ar yr holl academyddion ac ymchwilwyr sydd â syniadau, dyfeisiau neu dechnolegau newydd – mae project newydd gan y Swyddfa Ymchwil ac Arloesi yn awyddus i glywed gennych.

Gall y Project Masnacheiddio Eiddo Deallusol (ED), dan nawdd Rhaglen Cynnal Arbenigedd Academiaidd i Fusnesau (A4B), bwysu a mesur a oes gan syniadau, dyfeisiau neu dechnolegau a ddatblygwyd gan ein staff academiaidd bosibiliadau o ran creu elw ariannol o bwys yn y tymor hir, ar gyfer yr ymchwilydd a'r Brifysgol fel ei gilydd.

Gan weithio gyda Phrifysgolion Aberystwyth ac Abertawe, mae'r project yn anelu at gynyddu nifer y syniadau a'r dyfeisiadau posibl a nodir ac sy'n llifo oddi mewn i bob Prifysgol. Mae hefyd yn anelu

at gynyddu lefel y masnacheiddio ar eiddo deallusol, ac at sefydlu diwylliant o fasnacheiddio o fewn pob sefydliad.

Fel yr eglura Simon Pollock, Rheolwr Datblygu ED: "Bydd y project yn casglu'r holl syniadau a'u gwerthuso gan ddefnyddio ffynonellau cyllid eraill Arbenigedd Academiaidd i Fusnesau, er mwyn symud ymlaen ymhellach â'r syniadau gorau. Rydym yn wirioneddol awyddus i glywed gan academyddion ac ymchwilwyr nad ydynt, o bosibl, wedi ystyried y gall eu gwaith ymchwil fod ag agwedd fasnachol."

Cysylltwch â Simon Pollock trwy e-bost, i newideas@bangor.ac.uk, neu ffoniwch 01248 388028.

ADEILADWYD YN 1910 • AILAGORWYD YN 2010

NEUADD MÔN 100 MLYNEDD

YN DDIWEDDARACH

Can mlynedd ar ôl iddi agor am y tro cyntaf, mae adeilad hardd rhestredig gradd II Neuadd Môn yng Nghanolfan Rheolaeth Ysgol Busnes Bangor wedi ailagor ei drysau yn awr.

Mae contract £1.2 m i adnewyddu'r neuadd wedi darparu 40 yn rhagor o ystafelloedd gwely dosbarth busnes i westeion, gan gwblhau cam olaf adnewyddu'r cyfleusterau a gynigir gan y Ganolfan Rheolaeth. Rhoddwyd y contract i'r cwmni adeiladu lleol, Watkin Jones a'i Fab.

Mae'r Ganolfan Rheolaeth yn awr yn cynnig 57 o ystafelloedd cysgu/gweithio en-suite (gradd 4* gan Fwrdd Croeso Cymru) - gan ei roi ar y map fel canolfan gynadledda a hyfforddi breswyl fwyaf blaenllaw gogledd Cymru.

Gyda'i hachrediad dosbarth busnes aur am ei hystafelloedd cyfarfod a chynadledda, mae'r Ganolfan Rheolaeth yn profi'n lle poblogaidd ar gyfer gweithgareddau rhwydweithio i fusnesau hefyd, wedi'i wella gyda lansiad Clwb Busnes Prifysgol Bangor yn Nhachwedd 2008. Mae'r cyfleuster hwn sydd â'r dechnoleg ddiweddaraf, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r ardal, yn arbennig drwy ddenu twristiaeth busnes i'r ardal.

Mae croeso i gydweithwyr, ffrindiau ac ymwelwyr archebu'r defnydd o'r cyfleuster hwn sydd ar agor drwy'r flwyddyn.

Mae Canolfan Rheolaeth Ysgol Busnes Bangor, y project £14 miliwn a ariannwyd gan Gyngor Gwynedd, WEF0 a Phrifysgol Bangor, wedi bod yn cynnig hyfforddiant i oedolion a rhaglenni dysgu i unigolion, Mentrau Bychain a Chanolig a phobl fusnes yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ers Mai 2008.



Yr Athro Merfyn Jones yn dadorchuddio plac i nodi ailagor Neuadd Môn, efo'r Athro Colyn Gardner, Prif Weithredwr y Ganolfan Rheolaeth.

DADORCHUDDIO CERFLUN NEWYDD

Dadorchuddiwyd penddelw o'r Athro Bedwyr Lewis Jones, un o gyn athrawon mwyaf blaenllaw Prifysgol Bangor yn ddiweddar. Hwn yw'r penddelw cyntaf i'r Brifysgol ei gomisiynu ers dros hanner canrif, ac mae i'w gweld yn y coridor y tu allan i Ystafell yr Is-Ganghellor a Siambr y Cyngor.

Roedd Bedwyr Lewis Jones yn Athro Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor o 1974 hyd ei farwolaeth yn 1992 ac yn ddarlithydd yn y Brifysgol ers 1959. Comisiynwyd y benddelw gan y cerflunydd John Meirion Morris yn dilyn apêl lwyddiannus ymysg ei gyfeillion a'i gydweithwyr.

Meddai gweddw'r Athro Bedwyr Lewis Jones, Mrs Eleri Jones:

“Roedd Bedwyr yn ymfalchïo yn ei gysylltiad â Phrifysgol Bangor ac yn ei le yn yr olyniaeth o ysgolheigion Cymraeg y gosodwyd seiliau cedyrn iddynt gan Syr John Morris Jones. Mae gweld penddelw ohono yn y Coleg yn fraint ac anrhydedd.

Rydym fel teulu yn ddiolchgar i bawb a fu'n rhan o'r ymgyrch i wneud hyn yn bosib ac yn enwedig i John Meirion Morris am greu delwedd mor greffus ac mor debyg i Bedwyr.”



Penddelw o'r diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones.

Mae Laura yn un o'r tîm ymchwil yn yr Ysgol Gwyddorau Eigion sy'n cyfrannu at *National Centre for Earth Observation* y Cyngor Ymchwil i'r Amgylchedd Naturiol, ac sy'n cael eu cyllido ganddynt. Mae Laura newydd ddychwelyd o wersylla ar rew'r môr ddim yn bell o Begwn y Gogledd. Gofynnwyd i Laura ymuno â tîm o archwiliwyr gwyddonol, wedi'i arwain gan yr archwiliwr pegynol, Pen Hadow. Mae'r tîm rhyngwladol yn darganfod mwy am yr asideiddio cynyddol yn ein moroedd.

O le ydych chi'n dod, ac ers pryd ydych chi yma? Rydw i'n dod o Bournemouth yn wreiddiol. Mi wnes i fy ngraddau is-radd a Meistr ym Mhrifysgol Southampton a'm doethuriaeth ym Mhrifysgol Bryste. Rydw i wedi bod ym Mangor er Mawrth 2009 ar gontract tan fis Medi nesaf, ond rydw i'n gobeithio y bydd yn cael ei ymestyn.

Beth yw eich her fwyaf? Mae'r daith maes yma'n dipyn o her. Bydd y tymheredd o leiaf 30 gradd o dan y rhewbwynt - gan ostwng i tua -70 gydag oerni'r gwynt. Fy rhan i yn yr arolwg yw mesur cyfradd trosglwyddo CO₂ rhwng y môr a'r aer rhwng rhew'r môr. Ychydig iawn o'r cyfryw fesurau sydd wedi cael eu gwneud, felly bydd cael y data yn unig ar gyfer cynnod gaeaf yr Arctig yn ganlyniad pwysig ynddo'i hun. Rydw i wedi gweithio ar yr Ynys Las yn y gorffennol, ond mae'r daith hon yn hwy ac mewn amodau llawer caletach, ac felly er ei bod yn gyffrous,

mae hi hefyd ychydig yn frawychus! Bydd y data a gasglwn ar y daith hon yn gwneud cyfraniad pwysig at ein gwybodaeth gynyddol am Fôr yr Arctig a'i ryngweithio atmosfferig, ac felly mae'n werth ychydig o galedi.

Beth mae eich gwaith o ddydd i ddydd yn ei gynnwys? Yn y bôn, rydw i'n prosesu data a cheisio datblygu model i edrych ar symudiad CO₂ rhwng y dŵr a'r aer rhwng rhew y môr. Rydw i'n ceisio ysgrifennu papurau a chael gwneud fy ymchwil allan yno. Rydw i'n gwneud cwpl o bapurau ar y funud. Weithiau, mi fyddai'n gweithio o adref yn Aberdeen. (Mi wnaeth fy nyweddi a finnau gyfarfod ym Mryste. Fo oedd y cyntaf i gael gwaith yn Aberdeen, felly mi wnaethon ni ymgartrefu yno - ac rydw i'n teithio llawer i 'ngwaith!) Mi alla'i gael mynediad at yr holl feddalwedd sydd arna'i ei angen yno.

Beth ydych chi'n ei fwynhau am Fangor? Mae'n eithaf braf dod yn ôl i eigioneg, sef y pwnc ar gyfer fy ngradd a'm gradd Meistr, ar ôl symud i rewlifeg ar gyfer fy PhD, ac mae'n braf gweithio gyda gwahanol grwpiau ymchwil, ar ôl bod yn Southampton am bedair blynedd. Rydw i wedi addysgu mewn rhai o'r grwpiau tiwtora - sy'n ddifys ac yn werth chweil, ond yn llawer o waith caled. Do'n i heb sylweddoli faint o amser y byddai'n ei gymryd, ond mae'n werth chweil ei wneud, ac yn brofiad da.



SIOC DRYDANOL!

Oeddech chi'n gwybod bod Prifysgol Bangor yn gwario tua £2.3 miliwn y flwyddyn ar drydan, nwy, ac olew, gan gynhyrchu bron i 14 tunnell o garbon deuocsid yn y broses?

O ran allyriadau nwyon tŷ gwydr, trydan o'r prif gyflenwad yw ein ffynhonnell fwyaf llygrol o ynni, felly mae'n gwneud synnwyr amgylcheddol pendant yn ogystal â synnwyr economaidd i leihau faint yr ydym yn ei ddefnyddio cymaint ag y gallwn. Dyna pam yr ydym wedi buddsoddi mewn dros 120 o fesuryddion awtomatig sy'n cymryd darlleniadau ynni a dŵr bob hanner awr o'n holl brif adeiladau, a throsglwyddo'r wybodaeth i'r Tîm Ystadau. Golyga hyn bod gennym

fyndiad yn awr at ddata amser real, ac y gallwn nodi pa adeiladau yw ein rhai mwyaf, a lleiaf effeithlon. Yn y lle cyntaf, rydym yn edrych ar ddefnydd o drydan. Eglura Andrew Easter, Peiriannydd gyda'r Gwasanaethau Adeiladau, "Yn nodweddiadol, mae'r defnydd o drydan yn cynyddu'n raddol yn ystod y dydd fel mae staff a myfyrwyr yn cyrraedd a chaiff offer ei droi ymlaen. Mae hyn yn gostwng yn ôl wedyn yn ddiweddarach yn y dydd, gan lefelu allan i "lwyth sylfaenol" sy'n aros yn gyson tra nad oes neb yn yr adeilad (e.e. dros nos ac ar benwythnosau). Mae'r llwyth sylfaenol hwn yn dangos faint o offer sy'n cael ei ddefnyddio pan fydd pawb wedi gadael yr adeilad.

Rydym ni'n defnyddio data'r mesurydd i edrych yn agosach ar adeiladau gyda llwyth sylfaenol uchel i weld a yw offer sy'n cael ei adael ymlaen dros nos ac ar benwythnosau yn hanfodol, neu os all defnyddwyr adeiladau leihau faint o drydan a ddefnyddiant drwy ddiffodd eu hoffer cyn mynd adref".

Mae ymgyrch gychwynnol yn Adeilad Brigantia wedi dangos y gellir lleihau faint o drydan a ddefnyddiwn bron i 10% drwy ddim ond codi ymwybyddiaeth ymhlith deiliaid, ac annog staff i ddiffodd offer cyn iddynt adael am y dydd. Rydym yn bwriadu gwneud ymgyrchoedd tebyg yn ein hadeiladau mwy - mae Brigantia wedi gosod rhagesiampl - all eich adeilad chi wneud yn well?

Parti gwaith myfyrwyr yng Nhrefn.

TREBORTH YN 50

Mae Gerddi Botaneg Treborth yn 50 oed eleni, a bwriedir cynnal wythnos o ddathliadau ym mis Mehefin. Bydd y dathliadau'n cychwyn â'r Botanical Beats poblogaidd ar 6 Mehefin, ac yn dod i ben gyda diwrnod alumni ar 12 Mehefin. Bydd digwyddiad cerddoriaeth a chelfyddydau Botanical Beats yn rhan o ddathliad Cymru o Wythnos Ryngwladol Bioamrywiaeth, wrth i gyrff lleol sy'n ymwneud â bywyd gwyllt a gwirfoddolwyr o Ogledd-Orllewin Cymru ddod at ei gilydd i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau ac arddangosfeydd ar thema bywyd gwyllt. Mae'n ddigwyddiad cydweithredol, a drefnir yn bennaf gan Grŵp Gweithredu Myfyrwyr dros Dreborth (STAG) a chyda chefnogaeth Ardd Fotaneg Cyfeillion Treborth a Phrifysgol Bangor.

Sefydlwyd gardd Treborth gan yr Athro Paul Richards, Pennaeth yr Ysgol Fotaneg yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru ar y pryd, lle datblygwyd yn gyflym gasgliad o fwy na 2,000 o rywogaethau o blanhigion. Mae hanner arwynebedd Treborth o 18 hectar wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac yn cynnwys eitemau mor brin â'r Tegeirian Nyth Adar, yn ogystal ag amrywiaeth eithriadol o rywogaethau mwy cyffredin o blanhigion ac anifeiliaid. Mae'r amrywiaeth

naturiol hon yn ychwanegu'n sylweddol at werth ac apêl yr Ardd Fotaneg o ran addysgu ac ymchwil a gyfeirir, y dyddiau hyn, nid yn unig at fyfyrwyr Prifysgol, ond hefyd at nifer gynyddol o ysgolion ac o aelodau'r cyhoedd. Mae'r saith tŷ gwyr yn arddangos amrywiaeth y trofannau a'r rhanbarthau tymherus cynnes, ac mae'r tiroedd allanol yn cynnwys y labordy tanddaearol mwyaf a geir ym Mhrydain.

Mae Curador presennol yr Ardd, Nigel Brown, yn cael cymorth medrus gan wirfoddolwyr o blith aelodau Cyfeillion Gardd Fotaneg Treborth, grŵp cefnogi cyhoeddus sydd â mwy na 350 o aelodau. Ar ben hynny, mae myfyrwyr yn gweithio'n gyson ar broiectau ymarferol, yn cynnwys rheolaeth cefn gwlad a chreu pwll addysgol â bywyd gwyllt. Mae'r profiad ymarferol a gaiff myfyrwyr ar y projectau hynny yn ychwanegiad gwerthfawr at brofiad academaidd bywyd ym Mangor.

Os oes unrhyw aelodau staff â diddordeb mewn garddio, planhigion neu'r byd naturiol, mae gan Ardd Fotaneg Cyfeillion Treborth galendr llawn o ddigwyddiadau, yn cynnwys darlithoedd, gweithdai, teithiau maes, ymweliadau â'r ardd, gwerthiannau planhigion a diwrnodau agored. Ceir manylion am aelodaeth oddi wrth: www.treborthbotanicgarden.org/friends.htm

ABSEILIO A RHEDEG DROS FYWYD!

Mae aelod staff newydd, Llinos Thomas,

Cynorthwywr Gweinyddol yng Nghanolfan Ymchwil i Ddwyieithrwydd yr ESRC, a ymunodd â'r Brifysgol fis Tachwedd y llynedd, wedi cymryd rhan mewn trefnu digwyddiad *Relay for Life* ar Drac Rhedeg Treborth ar 26/27 Mehefin. Mae hi hefyd hyd yn oed wedi abseilio i lawr Tŵr Marcwis Ynys Môn i gyfrannu ymhellach at gyfanswm y *Relay for Life* ar gyfer *Cancer Research UK*.

Dywed Llinos, "Mae gan dimau *Relay for Life* o leiaf un aelod o'r tîm ar y trac drwy'r amser, yn cerdded neu'n loncian. Does yna ddim ras, felly nid oes raid iddynt redeg! Mae hyn yn cynrychioli'r chwilio di-bendraw am wellhad i ganser.

"Rydw i wedi bod yn rhan o ddwy Ras Gyfnedid yn Aberystwyth o'r blaen, lle'r oeddwn i'n arfer byw, felly pan symudais i adref i Ynys Môn y llynedd, ro'n i'n gwybod bod hwn yn ddigwyddiad yr oeddwn am gymryd rhan ynddo eto. Dydw i erioed wedi abseilio o'r blaen, felly rydw i'n teimlo'n gyffrous iawn!"

Dywed Llinos am y digwyddiad *Relay for Life*, "Bydd yna wersylla, gemau, cerddoriaeth ac awrygylch parti cyffredinol. Gall timau gynnwys teuluoedd, ffrindiau a chydweithwyr. Yn ogystal, mae'r digwyddiad yn cychwyn gyda lap gan rai sydd wedi goroesi canser, i ddathlu hynny, ac ysbrydoli'r timau. Yna am hanner nos, byddwn yn cael y Seremoni Cannwyll Gobaith, lle'r ydym yn cael canhyllau ar gyfer y rhai hynny sydd wedi colli eu brwydr yn erbyn canser."

Mae croeso i chi gysylltu â Llinos (est. 8864 neu e-bostiwrch l.m.thomas@bangor.ac.uk) os oes unrhyw un am ei noddi, cymryd rhan fel tîm, neu fel un sydd wedi goroesi canser, neu i gyflwyno cannyll. Cewch fwy o wybodaeth ar y wefan: www.cancerresearchuk.org/relay/venues/gwyneddandanglesey



STEL YN TORRI MWY O RECORDIAU NOFIO

Ffe wnaeth Stel Farrar, tiwtor Cymraeg ar gyfer y Coleg Addysg a Dysgu Gydol Oes, dorri dwy record nofio Brydeinig yn yr 800m a'r 1500m dull rhydd ym mhencampwriaethau cenedlaethol yr *Amateur Swimming Association* yn Sheffield yn ddiweddar.

Ymhlith y recordiau Prydeinig trawiadol a dorroyd y diwrnod hwnnw, roedd y rhai gan Stel Farrar, a dynnodd bron i 28 eiliad oddi ar yr amser blaenorol yng ngrŵp oedran 50-54 y merched, a gorffenn mewn 20:02.09. "Roedd yn wefreiddiol," meddai. "Tua chwe mis yn ôl, roedd fy amseroedd yn mynd yn arafach, felly ro'n i'n meddwl mod i wedi colli 'nghyfle am record Brydeinig. Ond roedd heddiw'n ddiwrnod da, ac roedd yn teimlo'n dda fel ro'n i'n nofio. Ro'n i ar y blaen i'r ddydd a oedd newydd dorri'r record Ewropeaidd, felly ro'n i'n gwybod mae'n rhaid 'mod i'n gwneud yn dda. Rydw i'n hapus iawn 'mod i wedi torri'r record o fwy na thrwyd blewyn."

Torrodd y record 800m wrth nofio'r 1500m, ac wedyn aeth ymlaen i wella'r amser hwnnw pan nofiodd y gystadleuaeth 800m unigol ddeuddydd yn ddiweddarach.

Mae'n bleser gan y Newyddlen glywed am lwyddiannau aelodau staff mewn chwaraeon a meysydd eraill!